

## **Delyana Lazarova**

Yn fawr ei chlod am ei pherfformiadau angerddol a'i phresenoldeb egnïol, mae'r brodor o Fwlgaria, yr arweinydd Delyana Lazarova yn artist ifanc a chanddi yrfa ryngwladol sy'n prysur dyfu. Hi ydi enillydd Gwobr Gyntaf 2020 Cystadleuaeth Ryngwladol Arweinwyr Siemens-Hallé, mae newydd ei phenodi'n Arweinydd Cynorthwyol Syr Mark Elder yn yr Hallé Symphony Orchestra, ac yn Gyfarwyddwr Cerdd yr Hallé Youth Orchestra ym Manceinion, Lloegr. Mae Ms. Lazarova hefyd yn enillydd Cystadleuaeth Arwain Ryngwladol NRTA yn Tirana, yn 2019. Derbyniodd Delyana Wobr Arwain James Conlon yng Ngŵyl Gerdd Aspen, ac ennill Ysgoloriaeth Arwain Bruno Walter yng Ngŵyl Cabrillo, California yn 2017 a 2018.

Ymhlith galwadau Delyana yn nhymor 2021/2022 mae cyngherddau gyda'r Hallé a London Mozart Players Orchestra yn Lloegr, Real Filharmonía de Galicia yn Sbaen, Klangforum Wien yn Awstria, Kammerphilharmonie Graubünden a Musikkollegium Winterthur yn y Swistir, Cerddorfa Radio Hwngari yn Budapest, a Cherddorfa Radio Genedlaethol Bwlgaria yn Sofia. Yn nhymor 21/22 bydd Ms. Lazarova hefyd yn arweinydd cynorthwyol Cristian Măcelaru ac Orchestra National de France. Bydd yn mynd â'r gerddorfa ar daith gyngerdd yn Ffrainc ym mis Ionawr, 2022.

Mae gan Delyana Radd Meistr mewn Arwain gan Zürcher Hochschule der Künste (ZHdK), yn nosbarth yr Athro Johannes Schlaefli. Mae Ms. Lazarova hefyd wedi gweithio ac astudio mewn dosbarthiadau meistr gyda Bernard Haitink, Paavo Järvi, Leonard Slatkin, Mathias Pintscher, Robert Spano, Larry Rachleff a Mark Stringer. Yn ddiweddar cynorthwyodd Cristian Măcelaru mewn cyngerdd, yn cynnwys y concerto soddgrwth "Three Continents" gan Nico Muhli/Sven Helbig/Zhou Long gyda Cherddorfa Symffoni WDR yng Nghwlen, yr Almaen. Mae gan Delyana hefyd radd Meistr Perfformio'r Ffidil gan y Jacobs School of Music, Prifysgol Indiana, yn nosbarth yr Athro Mauricio Fuks, lle cafodd ysgoloriaeth arbennig am ragoriaeth artistig.